

EGWYDDORION ANSAWDD

ASTUDIAETH ACHOS THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

PROSIECT

PROSIECT PONTIO'R CENEDLAETHAU

Sian Elin Williams, Cydlynnydd Cyfranogi, sy'n sôn am ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd wrth ddatblygu prosiect creadigol i ddyfeisio a chwarae gêm ddrama wrth ddysgu Cymraeg.

AM Y PROSIECT

Prosiect ar y cyd rhwng Theatr Genedlaethol Cymru, Theatr y Torch a Dysgu Cymraeg Sir Benfro fel rhan o Wythnos Genedlaethol Pontio'r Cenedlaethau ym Mawrth 2021 oedd hwn. Cynhaliwyd gweithdai drama gyda disgyblion Ysgol Gatholig Sant Ffransis yn Aberdaugleddau, gyda chyfle i ddyfeisio gemau drama. Yna, aeth dysgwyr grŵp Dysgu Cymraeg Sir Benfro ati i ddilyn camau a chanllawiau'r gemau.

Mae dysgu sy'n pontio'r cenedlaethau yn cynnig modd i bobl o bob oedran ddysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd, yn ogystal ag ennill sgiliau, gwerthoedd a gwybodaeth.

SUT WNAETHOCH CHI DDEFNYDDIO'R EGWYDDORION ANSAWDD?

Defnyddiwyd yr Egwyddorion Ansawdd i sicrhau fod y cyfranogwyr yn ganolog i holl benderfyniadau a chynnwys y prosiect. Teimlwyd yn gryf gan yr holl bartneriaid mai eu prosiect nhw oedd hwn.

Trwy ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd roedd modd sicrhau ein bod fel partneriaid yn rhoi cymorth i'r cyfranogwyr, a bod yna gynllun mewn lle i ddatlu cynnydd cyfranogwyr o fewn y prosiect. Yng nghyd-destun y prosiect yma, gwelwyd hyder y cyfranogwyr yn datblygu wrth i'r sesiynau fynd yn eu blaen i gymdeithasu yn y Gymraeg mewn modd creadigol.

PWY OEDD YN CYMRYD RHAN?

Gan fod yna dri phartner yn rhan o'r prosiect, defnyddiwyd yr Egwyddorion i sicrhau ein bod yn gwybod beth oedd rôl y tri ohonom fel cwmnïoedd er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i'n cyfranogwyr.

Roedd hi'n hollbwysig ein bod ni'n cael cyfarfodydd cyson er mwyn sicrhau ein bod yn cadw at pam yr oeddwn yn gwneud y prosiect a chadw ffocws clir ar y cyfranogwyr, gan sicrhau prosiect byddai o fudd iddyn nhw.

Roedd yr Egwyddorion hefyd yn bwysig wrth i ni drafod heriau gall godi drwy wneud gweithdai ar-lein oherwydd y sefyllfa bresennol. Felly wrth gael yr Egwyddorion fel pwynt cyfeirnod a ffocws, roeddwn yn gallu sicrhau'r ffurf gorau i oresgyn yr her pe bai rhywbeth yn codi.

BETH WNAETHOCH CHI EI DDYSGU?

Yn sgîl y prosiect hwn, roedd hi'n amlwg ei fod yn hollol bwysig wrth gynllunio prosiect adnabod anghenion y cyfranogwyr sydd yn rhan ohono. Drwy adnabod anghenion y cyfranogwyr wnaethom sicrhau bod y cyfranogwyr yn cael eu cefnogi drwy gydol y prosiect.

Drwy weithredu ar hyn, crëwyd man diogel ac agored er mwyn i'r cyfranogwyr medru mynegi eu barn a rhoi sylwadau er mwyn iddynt deimlo mae eu prosiect nhw yr oedd hi.

AWGRYMIADAU DA

Mwynhewch – mwynhewch y broses o greu, a mwynhewch y broses o ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd. Dy'n nhw ddim yna i'ch drysu chi, i'ch camarwain chi. Maen nhw yna i'ch cefnogi chi a hefyd maen nhw'n gyfeirnod da wrth i chi baratoi prosiect neu weithio gyda chymunedau a chyfranogwyr.

RHAGOR O WYBODAETH

theatr.cymru/prosiectau



Theatr
Genedlaethol
Cymru



ArtWorks
Cymru

